# Strategaeth Gyfathrebu

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

**Cymeradwywyd gan Cabinet 7 Gorffennaf 2026**



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyfathrebu heddiw | 3-4 |
| Ffigurau | 5-6 |
| Ein nod wrth gyfathrebu | 7-9 |
| Ein prif feysydd ffocws | 10-12 |
| Hunaniaeth gorfforaethol | 13 |
| Gwerthuso | 14 |

# Cyfathrebu heddiw



**Ceredigion mewn rhifau**

**71,500** o bobl

**46.8 oed** oedran cyfartalog

**31,246** cartref

**43 o ysgolion** a **9,590 o ddisgyblion**

**47.3%** o breswylwyr sy'n siarad Cymraeg

## Mae ymchwil Ofcom mis Gorffennaf 2025 yn dweud wrthym:

**70%** o oedolion yn chwilio am newyddion ar y we yn rheolaidd erbyn hyn.


**51%** o bobl dros 16 yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol i dderbyn newyddion.

Mae'r adroddiad Ofcom News Consumption (2025) yn dangos bod defnydd o bapurau newydd wedi parhau i ostwng.



# Cyfathrebu heddiw

Ers y Strategaeth Gyfathrebu ddiwethaf, a gyhoeddwyd yn 2019, mae'r tirlun cyfathrebu wedi newid yn sylweddol, yn rhannol oherwydd newidiadau yn y dechnoleg ond hefyd oherwydd y pandemig a gyflymodd newidiadau yn y ffordd y mae pob sefydliad yn cyfathrebu â'r cyhoedd.



Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu ystod eang o wasanaethau hanfodol sy'n cefnogi trigolion, busnesau a chymunedau.

Mae gwasanaethau ledled y Cyngor wedi datblygu llawer o ddilynwyr ar ein platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae hyn wedi bod yn ffordd gost-effeithiol o gyfathrebu â'n trigolion.

Rydym yn monitro ein cynnwys yn ofalus ac yn gweithio'n galed i gyfathrebu â’r trigolion mewn ffyrdd fydd yn ddefnyddiol ac yn berthnasol iddynt.

Rydym yn cydnabod bod gan Geredigion boblogaeth hŷn sydd ddim ynghlwm â’r byd digidol o reidrwydd, felly mae'n bwysig parhau i ddarparu ar eu cyfer drwy ein cylchlythyrau a'n datganiadau i'r wasg.

Ar yr un pryd bu newidiadau sylweddol yn y ffyrdd y mae trigolion yn dewis derbyn a defnyddio newyddion, gan barhau â'r symudiad i ffwrdd o ffynonellau newyddion traddodiadol a phrint tuag at lwyfannau digidol a chyfryngau cymdeithasol.

# Ffigurau

Facebook sydd â'r nifer uchaf o ran dilynwyr ac ymgysylltu o blith ein platfformau, gyda'r cyfrif Saesneg yn cyrraedd dros 100mil y mis. Mae Instagram a LinkedIn yn perfformio'n dda ond mae'r ymgysylltiad yn isel ar X felly nid yw cyfrif y Cyngor yn weithredol. Yn ogystal mae cyfrif TikTok yn cael ei dreialu gan y Gwasanaeth Ieuenctid.

Rydym hefyd yn monitro'r data ar nifer y bobl sy'n bwrw golwg ar bostiadau ac yn rhyngweithio, yr amser a dreulir yn darllen, yn ogystal â demograffeg ein cynulleidfa.

**Dilynwyr**

Facebook – Tudalen Cymraeg **3,389**

Facebook – Tudalen Saesneg **21,216**

Instagram **2,395**

LinkedIn **3,399**

YouTube **202**

Cyfanswm o **30,601** o ddilynwyr ar draws ein prif sianeli

Cywir ym mis Mai 2026



# Ffigurau



## Newyddlenni

Rydym hefyd yn dosbarthu e-gylchlythyrau misol dwyieithog am ddim y mae trigolion yn gallu tanysgrifio iddynt drwy gofrestru ar Fy Nghyfrif. Mae'r e-gylchlythyrau yn cynnwys newyddion y Cyngor ac yn rhoi gwybod am ymgyngoriadau ac ymgysylltiadau â’r cyhoedd.

Mae nifer y tanysgrifwyr ar gyfer y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn cynyddu'n raddol, gyda **1,396** o danysgrifwyr i'r fersiwn Gymraeg a **2,205** o danysgrifwyr i'r fersiwn Saesneg ym mis Ebrill 2026.




**Newyddlen: Ebrill 2026**
01/04/2026




**Newyddlen: Mawrth 2026**
03/03/2026

# Ein nod wrth gyfathrebu



## Ein gweledigaeth:

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn darparu gwasanaethau cyhoeddus dwyieithog a chynaliadwy sy’n rhoi gwerth am arian ac sy'n cefnogi economi gref ac amgylchedd iach. Ar yr un pryd mae’n hyrwyddo llesiant ein pobl a'n cymunedau.

## Bydd ein gweithgarwch yn:

| | |
|---|---|
| **Rhoi gwybodaeth** | Darparu’r wybodaeth sydd ei hangen ar drigolion a defnyddwyr gwasanaethau. |
| **Ysbrydoli** | Helpu’r trigolion i gyd i wneud y defnydd gorau o'n gwasanaethau drwy roi mynediad iddynt i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. |
| **Rhoi sicrwydd** | Rhoi sicrwydd i drigolion ar adeg argyfwng. |
| **Caru Ceredigion** | Hyrwyddo ein straeon o lwyddiant gan godi proffil Ceredigion fel lle i ddysgu, byw, llwyddo a pherthyn. |

# Ein nod wrth gyfathrebu

Mae angen nod ar bob gweithgaredd cyfathrebu er mwyn helpu'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol.

Pa bryd bynnag y bydd ein gwasanaethau yn cyfathrebu â thrigolion a defnyddwyr gwasanaethau, byddwn yn defnyddio iaith glir a'r fformat mwyaf priodol er mwyn eu cyrraedd, gan dderbyn nad yr un fformat a ddefnyddir ar gyfer pob ymgyrch, stori, gwasanaeth neu breswylydd / defnyddiwr gwasanaeth.

Mae'r modd mae Cyngor Sir Ceredigion yn cyfathrebu yn allweddol i wireddu ein gweledigaeth ar gyfer y Sir.

Mae cyfathrebu'n dda yn gyfrifoldeb i bawb yn y Cyngor, nid dim ond i'r Tîm Cyfathrebu. Mae gan y Cyngor Dîm Cyfathrebu sy'n cefnogi, cynghori a chydlynu ymgyrchoedd ac ymholiadau ar ran gwasanaethau.

Mae neges gydlynus a chlir yn sicrhau bod ein pobl ni, aelodau etholedig, rhanddeiliaid, a thrigolion Ceredigion yn deall ein nod ac yn rhan o'r daith.

Ein hymrwymiad yw defnyddio dull cyson o gyfathrebu ar amryw sianel er mwyn cyrraedd cynifer o drigolion, defnyddwyr gwasanaethau, busnesau, sefydliadau partner a rhanddeiliaid â phosibl.



**Dylai'r holl negeseuon cyfathrebu:**

- fod yn berthnasol i flaenoriaethau'r Cyngor
- fod heb ragfarn wleidyddol
- fod yn wrthrychol a thryloyw gan esbonio i bobl
- gael eu cynnal mewn ffordd briodol a chyson
- gyfiawnhau'r arian cyhoeddus gaiff ei wario arnynt
- fod yn ddwyieithog, mewn arddull a thôn sy'n briodol i'r sianel
- fod yn hygyrch ac mewn ffurf sy'n hawdd ei ddeall



# Ein nod wrth gyfathrebu

## Ein cynulleidfa

Mae'r Cyngor yn cyfathrebu ac yn cynorthwyo'n ddwyieithog ac o safon a hynny i ystod o gynulleidfaoedd:

**Pwy yw ein cynulleidfa?**

- Aelodau Senedd Cymru a San Steffan
- Cyfryngau
- Defnyddwyr gwasanaethau
- Gweithwyr presennol a darpar weithwyr
- Cynghorau Tref a Chymuned
- Trigolion
- Busnesau
- Partneriaid a Rhanddeiliaid
- Llywodraeth Cymru a DU
- Ymwelwyr
- Cynghorwyr

**Sut ni'n cyfathrebu**

- E-byst, llythyron, galwadau ffôn a negeseuon testun uniongyrchol
- Hysbysiadau cyhoeddus
- Cyfryngau cymdeithasol
- Posteri a thaflenni
- Cyfathrebu ar adeg argyfwng
- Ymgynghoriadau ac Ymgysylltu
- Rheoli ymgyrchoedd a digwyddiadau
- Datganiadau i'r Wasg
- Newyddlenni, Parentmail a Broncom
- Cysylltiadau â'r cyfryngau
- Microsoft Teams
- Cyfathrebu mewnol
- Gwefan
- Fy Nghyfrif
- Wyneb yn wyneb




# Ein prif feysydd ffocws

## Ffocws 1

**Cyflymu'r newid i gyfathrebu ar-lein drwy gynyddu cylchlythyrau e-bost a chryfhau ein presenoldeb ar gyfryngau cymdeithasol.**

- Byddwn yn mabwysiadu ymagwedd ddigidol-gyntaf, gan gyhoeddi ein straeon ein hunain drwy ddatblygu llwyfan newyddion ar-lein cryf i gyfathrebu'n uniongyrchol â thrigolion.
- Byddwn yn ehangu ein cynulleidfaoedd ar draws y cyfryngau cymdeithasol i gyrraedd ystod eang o bobl ledled y sir, gan wella ansawdd a pherfformiad ein cynnwys i gynyddu cyrhaeddiad ac ymgysylltiad. Ein nod fydd gwneud gwasanaethau ar-lein yn ddewis naturiol, drwy eu gwneud yn hawdd eu cyrchu a'u defnyddio.
- Byddwn yn lleihau'r ddibyniaeth ar ddeunydd printiedig mewn partneriaeth â gwasanaethau'r Cyngor, gan gyfrannu at nodau newid hinsawdd, tra'n sicrhau bod gwybodaeth ar gael yn y fformat mwyaf priodol i bawb, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heithrio'n ddigidol.
- Byddwn yn cynyddu'r defnydd o e-gylchlythyrau drwy annog trigolion i danysgrifio i ddiweddariadau rheolaidd perthnasol, ac yn manteisio ar dechnolegau newydd fel fideo ac animeiddio hygyrch i estyn ein cyrhaeddiad.
- Byddwn yn archwilio potensial deallusrwydd artiffisial ac yn cadw i fyny ag ymddygiad newidiol ein cynulleidfaoedd, wrth barhau i gefnogi gwasanaethau mewnol gyda chyngor ac arfer gorau ar gyfryngau cymdeithasol.
- Byddwn hefyd yn monitro sianeli newydd ac yn cydweithio'n agos i gynllunio cynnwys, rhannu dysgu a phrofi cyfleoedd newydd ar draws cyfrifon y Cyngor.

# Ein prif feysydd ffocws



## Ffocws 2

### Parhau i gyfathrebu a hyrwyddo ymgyrchoedd ar sail data a phwrpas

- Byddwn yn gwneud yn siŵr fod y bobl yr effeithir arnynt fwyaf yn cael gwybod y wybodaeth yn gyntaf a byddwn yn targedu'r trigolion perthnasol mewn ffordd sy'n briodol i'r hyn rydyn ni'n siarad amdano.
- Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth yn sgil yr e-gylchlythyr a'n platfformau ar y cyfryngau cymdeithasol i sicrhau ein bod yn darparu mwy o'r wybodaeth y mae gan ein trigolion ddiddordeb ynddi a hynny yn y ffurf fwyaf priodol.
- Byddwn yn mynd ati i gael adborth, yn gwerthuso'r holl weithgarwch yn seiliedig ar ganlyniadau, ac yn rhannu'r gwersi gyda'n cydweithwyr.
- Byddwn yn defnyddio adborth, mewnwelediad, cyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg ein gwefan i wella o hyd ein gweithgarwch cyfathrebu.



## Ffocws 3

### Bod swyddfa'r wasg yn darparu gwasanaeth proffesiynol i'r cyfryngau ac i wasanaethau'r Cyngor.

- Os mai dyna'r dull mwyaf priodol, byddwn yn parhau i ddarparu datganiadau newyddion rheolaidd ar gyfer y cyfryngau lleol, rhanbarthol ac arbenigol, gan gynnwys lluniau parod a dolenni gwe i sicrhau'r sylw gorau bosibl.
- Byddwn yn hwyluso sylw i ddigwyddiadau'r Cyngor drwy ddarparu copi a lluniau cyn gynted â phosib ar ôl y digwyddiad.
- Byddwn yn cynnal gwasanaeth cyfryngau ymatebol, gan ymateb yn brydlon ac yn ffeithiol i ymholiadau'r cyfryngau, a gweithio'n rhagweithiol ar straeon penodol.
- Byddwn yn herio ac yn gwrthbrofi cynnwys anghywir i sicrhau bod sylw'r cyfryngau yn adlewyrchu'r ffeithiau.
- Byddwn yn parhau i gynhyrchu e-newyddlenni rheolaidd i roi crynodeb o'r newyddion a diweddariadau ar brosiectau.
- Byddwn yn gweithio gyda gwasanaethau'r Cyngor i hybu tanysgrifiadau i e-newyddlenni, er mwyn darparu gwybodaeth amserol a chyfleus i drigolion.

# Ein prif feysydd ffocws



## Ffocws 4

**Parhau i gyfathrebu'n gyfartal yn y Gymraeg a'r Saesneg gan sicrhau bod dwyieithrwydd a hygyrchedd yn sail i'n gweithgarwch cyfathrebu**

- Bydd pob neges gyfathrebu yn Gymraeg a Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg.
- Byddwn yn cyfathrebu mewn Cymraeg a Saesneg clir, gan sicrhau bod gwybodaeth yn hygyrch i'n trigolion.
- Byddwn yn gwneud ein gwefan yn hygyrch, gan gydweddu â'r Strategaeth Ddigidol.
- Byddwn yn parhau i sicrhau bod ein cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys lluniau, yn hygyrch i drigolion anabl.
- Byddwn yn sicrhau bod ein fformatau cyfathrebu yn hygyrch ac yn briodol i anghenion y preswylydd.
- Byddwn yn defnyddio offer digidol i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddiwn yn hawdd i'w deall ac yn adlewyrchu oedran darllen cenedlaethol y DU.
- Byddwn yn ceisio gwneud cynnwys a dyluniad ein cyfathrebu yn ddigon clir a syml i'r rhan fwyaf o bobl ei ddefnyddio heb orfod ei addasu, tra'n cefnogi'r rhai sydd angen addasu deunydd.
- Rydym yn ymwybodol nad oes gan bob preswylydd fynediad at sianeli digidol ac rydym yn darparu gwybodaeth mewn ystod o fformatau gan gynnwys print i wneud yn siŵr nad ydym yn eithrio neb.
- Byddwn yn esbonio'n glir yr hyn yr ydym yn ymgynghori arno ac yn dweud wrth bobl sut y gall eu barn ddylanwadu ar benderfyniadau.
- Byddwn yn rhagweithiol ac yn dryloyw – hyd yn oed pan fyddwn yn gwybod na fydd y newyddion yn cael eu croesawu.

# Hunaniaeth gorfforaethol



Mae bod yn gyson a phroffesiynol wrth gyflwyno ein hunain fel Cyngor Sir Ceredigion yn elfen hanfodol o'r brand corfforaethol. Dyma'r hyn y mae pobl yn ei weld ac yn sylwi arno gyntaf.

Mae Canllawiau ein Brand Corfforaethol ar gael i'r holl staff i sicrhau bod unrhyw ddeunyddiau cyfathrebu gan y Cyngor, megis deunydd ysgrifenedig, deunydd hyrwyddo, polisïau a gwefan i enwi ond rhai, yn cael eu cyflwyno'n gyson mewn arddull gorfforaethol y gellir ei hadnabod.

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

## Cyfathrebu yn fewnol / gyda'r gweithwyr

Mae cyfathrebu mewnol yn hanfodol i gefnogi'r Cyngor i gyflawni ei weledigaeth a'i Amcanion Llesiant Corfforaethol. Er ei fod yn canolbwyntio ar weithwyr, mae'n cyd-fynd yn agos â'r nodau cyfathrebu ehangach.

Y nod yw sicrhau bod staff yn teimlo'n wybodus, yn cael eu gwerthfawrogi ac yn gysylltiedig â'i gilydd, gan feithrin ymdeimlad o bwrpas a chydweithio ar draws y sefydliad.

Mae dull 'Tîm Ceredigion' yn hyrwyddo tryloywder, yn annog llais y gweithwyr ac yn dathlu llwyddiannau, gyda'r bwriad o wella profiad staff a'u galluogi i ddarparu gwasanaethau o safon uchel.

Mae cyfathrebu mewnol ac allanol yn cydblethu, yn enwedig mewn cyfnodau allweddol. Drwy sicrhau bod gweithwyr yn deall blaenoriaethau'r Cyngor, cânt eu grymuso i fod yn llysgenhadon effeithiol ac i gefnogi enw da Ceredigion.

# Gwerthuso



Byddwn yn defnyddio'r dulliau canlynol i gywain adborth y trigolion, llywio ein gwasanaethau, a gwerthuso a mesur ein llwyddiant:

- Dadansoddeg y cyfryngau cymdeithasol
- Dadansoddeg e-byst
- Gwaith monitro’r cyfryngau print
- Adborth ymgyngoriadau cyhoeddus
- Dadansoddeg y wefan

Byddwn hefyd yn gofyn am adborth gan gydweithwyr fel rhan o adolygu ymgyrchoedd a phrosiectau wedi iddynt ddigwydd, a hynny i lywio a gwella ein gwasanaethau yn barhaus.

**Strategaethau eraill**
Mae sawl strategaeth, polisi a chynllun yn cyfrannu at y Strategaeth Gyfathrebu ac yn ymwneud â hi, ac mae'r rhain ar gael ar wefan y Cyngor:

- Siarter y Cwsmer
- Strategaeth Gorfforaethol
- Strategaeth Ddigidol
- Polisi Ymgysylltu a Chyfranogi
- Strategaeth y Gymraeg a
- Safonau'r Gymraeg
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- Strategaeth Llesiant Gydol Oes
- Strategaeth Economaidd
- Cynllun y Gweithlu

Mae’r Strategaeth Gyfathrebu yn sefyll ar ei phen ei hun ymhlith y strategaethau uchod; fodd bynnag, mae'n cefnogi, yn cynghori ac yn hyrwyddo eu gweledigaeth a'u gweithgarwch.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'r:
Tim Cyfathrebu
swyddfarwasg@ceredigion.gov.uk
01545 570881
www.ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Caru·Love Ceredigion

Strategaeth Gyfathrebu 2026-2031